# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-25-08)**

## SLC214

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) (Diwygio) 2008

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 sy'n cynnwys mesurau i atal cyflwyno ac ymledu plâu a chlefydau niweidiol drwy roi Cyfarwyddebau a Phenderfyniadau Ewropeaidd penodol ar waith. Effaith y diwygiadau yw israddio statws dau bla, gwneud mân newidiadau i'r rhestr o ardaloedd a gydnabyddir fel parthau gwarchod a gwneud mân newidiadau technegol mewn perthynas â'r cytundeb ar fasnach mewn cynhyrchion amaethyddol rhwng yr UE a'r Swistir i adlewyrchu'r newidiadau yn neddfwriaeth iechyd planhigion y pleidiau. Mae'r gorchymyn hefyd yn dirymu tri offeryn sy'n ymwneud â gofynion hysbysu ar gyfer tatws hadyd a thatws bwyta o Aelod-wladwriaethau penodol.

### Gweithdrefn: Negyddol

Bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.2(vi) (drafftio diffygiol).

Mae Erthygl 1 yn nodi teitl y Gorchymyn. Yn y testun Cymraeg mae geiriau sy'n cyfateb i "The Plant Health (Wales) Order" wedi eu hepgor.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**Tachwedd 2008**

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r pwynt adrodd a grybwyllir uchod. Caiff y gwall ei gywiro pan gyhoeddir yr offeryn.